Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyfeirnod
Your reference

Ein cyfeirnod
Our reference

Dyddiad
Date

6 Hydref 2020

Llinell uniongyrchol
Direct line

Ebost
Email:

Annwyl

PENODIAD: AELOD ANWEITHREDOL O FWRDD CYMRU GREADIGOL

Yn ddiweddar, buoch mewn cyfweliad yn Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiad i Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol. Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i wasanaethu fel Aelod Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Bydd eich cyfnod yn y swydd yn cychwyn ar 01 Tachwedd 2020 ac yn dod i ben ar 01 Tachwedd 2023 oni bai y bydd yn cael ei derfynu cyn y dyddiad hwnnw. Nid ydych yn gyflogai. Yn unol â hynny, ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y llythyr hwn fel contract cyflogaeth rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru, na chymryd ei fod yn ei greu. Cewch eich talu ar gyfradd o £198 y dydd a bydd gennych hawl i gael lwfansau teithio a chynhaliaeth mewn perthynas â gwariant rhesymol tra rydych ar fusnes Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Rwy'n amgáu'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad hwn ac rwy'n gobeithio y gallwch dderbyn ar y sail hon ac, os felly, a fyddech cystal â chadarnhau hyn drwy lofnodi copi o'r Telerau ac Amodau Penodiad a'u hanfon at Gerwyn Evans ( ).

Byddwn yn cyhoeddi'r penodiadau i'r bwrdd cyn bo hir felly a fyddech cystal hefyd â darparu darn byr o'ch manylion bywgraffyddol i'w cynnwys yn y cyhoeddiad? Yn y cyfamser, cadwch y cynnig hwn yn gwbl gyfrinachol nes bod y cyhoeddiad wedi'i wneud.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Yr wyf yn rhoi pwys mawr ar rôl Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol a gwaith ei Aelodau o ran cefnogi Cymru Greadigol, ei Ddirprwy Gyfarwyddwr a'i uwch dîm rheoli wrth bennu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad strategol y sefydliad. Edrychaf ymlaen yn fawr at eich cyfraniad fel aelod o Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Yn gywir

pp

Jason Thomas
Cyfarwyddwr
Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth